**Hysbysiad Preifatrwydd - Cynlluniau Datblygu**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymwneud â'r modd y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (fel Rheolwr Data) yn casglu, defnyddio a rhannu'ch data personol at ddibenion cyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â:

a) pharatoi a monitro Cynlluniau Datblygu, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol, y Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol, dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig, gohebiaeth cynllunio gyffredinol mewn perthynas â hynny a chynllunio parhad busnes cysylltiedig; ynghyd â
b) pharatoi a monitro Cynllun Rheoli/Partneriaeth y Parc Cenedlaethol

**Pam mae angen eich gwybodaeth arnom (diben prosesu)**

Rydym yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol er mwyn cynnal rhestr cysylltiadau fel y gallwn gyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol y mae rhaid i ni eu cyflawni:

a) Er mwyn rhoi gwybod i chi am ymgynghoriadau a chamau allweddol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Datblygu Strategol a dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig a monitro gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol, fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth cynllunio;
b) Er mwyn rhoi gwybod i chi wrth baratoi ac ymgynghori ynglŷn â Chynllun Rheoli/Partneriaeth y Parc Cenedlaethol a monitro'r ffordd y caiff ei gyflawni fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf yr Amgylchedd 1995.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ydy er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a hefyd Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd yn 2015, a Deddf yr Amgylchedd 1995 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018.

Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a dim ond y wybodaeth bersonol y mae ei hangen at y dibenion uchod y byddwn yn ei chasglu.

**Pa ddata personol sy'n cael ei chasglu?**

Er mwyn cofrestru eich manylion ar y rhestr cysylltiadau, mae angen y canlynol: enw, cyfeiriad e-bost, cod post, cyfeiriad post (pan ofynnir am hysbysiadau papur), dewis o ran cyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Wrth wneud sylwadau ar gamau ymgynghori, bydd manylion personol, gan gynnwys enw, cyfeiriad e-bost a chod post yn cael eu casglu. Rhaid i'r sylwadau nodi'r rhan benodol o'r cynllun y mae eich sylwadau yn ymwneud â hi, p'un ai ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu ac unrhyw newidiadau a awgrymir.

Pan fyddwch yn cyflwyno safleoedd datblygu arfaethedig i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol, gall fod angen gwybodaeth am unrhyw gyfamodau cyfreithiol sy'n berthnasol i'r tir neu wybodaeth am hyfywedd ariannol. Gellir darparu manylion sy'n berthnasol i'r safle megis mynediad, seilwaith ac ati.

**Gallai'r data personol hyn gael eu casglu:**

- Pan fyddwch yn cwblhau holiadur ar-lein
- Pan fyddwch yn siarad â ni ar y ffôn, drwy e-bost neu'n anfon llythyr atom
- Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan

**Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) yn ei gwneud yn ofynnol i amodau penodol gael eu bodloni er mwyn sicrhau bod prosesu eich data personol yn gyfreithiol. Mae'r amodau perthnasol hynny isod**:**

- Erthygl 6 (1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

**Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu'ch gwybodaeth?**

Gallem rannu eich gwybodaeth bersonol yn fewnol ag adrannau perthnasol o fewn yr Awdurdod, ond at ddibenion penodedig yn unig.

Bydd sylwadau a gyflwynir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Bydd data personol sy'n cynnwys enwau, cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost unigolion yn cael eu hepgor.

Gall fod angen i ni rannu eich data personol yn allanol â sefydliadau eraill a thrydydd partïon er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cynllunio statudol ac anstatudol. Pan fyddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau y cynhelir diwydrwydd dyladwy priodol a bod Cytundebau Prosesu neu Rannu Data yn eu lle. Ni fyddwn yn datgelu unrhyw beth i drydydd partïon at ddibenion marchnata. Gallwn ni rannu eich gwybodaeth am y rhesymau canlynol:

- Gellir rhannu data â Chyngor Sir Penfro neu awdurdodau cynllunio lleol eraill pan gynhelir ymgynghoriadau ar y cyd.
- Mewn rhai achosion, gallwn ymgynghori â chydweithwyr yng Nghyngor Sir Penfro gan mai nhw yw'r awdurdod lleol ar gyfer tai, priffyrdd, addysg, gwastraff a diogelu'r cyhoedd a gallant ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol wrth lunio polisi. Gellir ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ynglŷn â materion sy'n benodol i safleoedd.
- Mae gan unrhyw unigolyn sydd wedi cyflwyno sylwadau'n briodol ar y CDLl adneuo yr hawl i ymddangos yn yr archwiliad, er mai mater i'r Arolygydd fydd ystyried y gwerth a ychwanegir drwy ganiatáu ymddangosiad, yn hytrach na dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig. Gellir rhannu manylion cysylltu personol â Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) sydd yn penodi Arolygydd i archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol. Gellir rhannu gwybodaeth

hefyd â’r Swyddog Rhaglen sy’n gweithio dan gyfarwyddyd yr arolygydd a benodir i reoli elfennau gweinyddol archwiliad y CDLl, gan gynnwys cysylltu ag unigolion neu sefydliadau sydd wedi cyflwyno sylwadau yn briodol.

- Ymgynghorwyr a darparwyr trydydd-parti eraill sydd wedi’u comisiynu gan yr Awdurdod i gyflawni gwaith penodol. Byddai’r Awdurdod yn sicrhau bod yr holl drydydd partïon yn destun telerau a chytundebau perthnasol drwy gontract. Rydym yn defnyddio proseswyr data (trydydd partïon) sy’n darparu gwasanaethau i ni o safbwynt darpariaeth TG ac adfer wedi trychineb. Mae gennym gontractau yn eu lle â’r proseswyr data hyn ac ni allant wneud unrhyw beth â’ch data personol oni bai ein bod ni wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Byddant yn cadw eich data yn ddiogel a dim ond yn unol ag UK GDPR y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu. Pan fydd angen i’ch gwybodaeth bersonol gael ei throsglwyddo y tu allan i’r Deyrnas Unedig fel rhan o’r contractau hyn, dim ond yn unol ag UK GDPR y gwneir hynny.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy’n ofynnol yn gyfreithiol a gallwn hefyd rannu’r wybodaeth hon â chyrff eraill sy’n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddau neu archwilio/gweinyddu cronfeydd cyhoeddus er mwyn sicrhau y caiff arian ei dargedu a’i wario yn y modd mwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hynny, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ag Archwilwyr Mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (Hysbysiad Preifatrwydd Archwilio Cymru).

### Os byddwch chi’n dewis peidio â rhoi gwybodaeth bersonol

Os byddwch chi’n dewis peidio â rhoi gwybodaeth bersonol, ni fyddwch yn cael eich cofrestru ar y rhestr cysylltiadau ac ni fyddwch yn cael gwybod nac yn cael eich hysbysu gan yr Awdurdod ynglŷn a thasgau polisi cynllunio neu rai sy’n ymwneud â’r Cynllun Rheoli/Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Gallai hyn atal neu beri oedi rhag i'r Awdurdod gyflawni ein gofynion gweithdrefnol.

### Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cadw'r wybodaeth a ddarperir i ni am 25 mlynedd, fodd bynnag bydd modd gwaredu llawer o’r ohebiaeth fwy cyffredinol ynglŷn â’r cynlluniau cynharach ymhell cyn hynny. Ar gyfer ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â pholisi cynllunio, byddwn yn ei chadw dros gyfnod paratoi’r Cynllun Datblygu Lleol 3 newydd ac hyd nes bydd y CDLl 3 a fabwysiedir yn cael ei adolygu. Cysylltir â chi wedyn i ofyn a ydych yn dymuno parhau ar y rhestr cysylltiadau ac os na fyddwn yn clywed gennych, bydd eich manylion yn cael eu tynnu oddi yno.

Bydd unrhyw sylwadau a wnaed yn briodol mewn perthynas â’r CDLl, unwaith y byddant wedi’u cyflwyno i’r Awdurdod, yn parhau yn rhan o’r cofnod o’r ymgynghoriad.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei waredu'n ddiogel unwaith na fydd ei angen mwyach.  Gallwch anfon e-bost atom unrhyw bryd i ofyn am i'ch manylion gael eu tynnu o gronfa ddata ymgynghoriad y CDLl ac wedyn ni fyddech yn derbyn hysbysiadau mwyach ynglŷn â pholisi cynllunio neu'r Cynllun Rheoli/Partneriaeth.  E-bost: devplans@pembrokeshirecoast.org.uk neu ysgrifennwch atom yn:  Tîm Polisi Strategol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro SA72 6DY.

**Eich Hawliau**

Dan Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn gan gynnwys:

- Yr hawl i gael eich **hysbysu**
- Yr hawl i **Gywiro** – mae gennych hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth gael ei gywiro.
- Yr hawl i Ddileu - gallwch chi ofyn i ni ddileu eich data personol. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu na fyddech yn derbyn hysbysiadau gan yr Awdurdod mwyach ynglŷn â pholisi Cynllunio a'r Cynllun Rheoli/Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol.  Unwaith y bydd sylwadau a wnaed yn briodol wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod, byddent yn parhau yn rhan o'r cofnod o'r ymgynghoriad. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond gall fod angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol.
- Gallai'r hawl i **Gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, gallai hyn beri oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi.  Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond gall fod angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n gofynion gweithdrefnol.
- Yr hawl i **gludadwyedd data**
- Yr hawl i **Wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **Gwneud penderfyniadau'n awtomataidd a phroffilio.**
- Yr hawl i **Fynediad** – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol.  I wneud cais, cysylltwch â:

  Rheolwr Y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd

  Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

  Parc Llanion

  Doc Penfro

  Sir Benfro

SA72 6DY

E-bost: adminanddemocraticservices@pembrokeshirecoast.org.uk

Ffôn: 01646 624800

**Cwynion neu Gwestiynau**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymdrechu i gyflawni'r safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Oherwydd hynny, rydym yn ystyried unrhyw gwynion a dderbyniwn am hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i ddwyn y mater i'n sylw os ydynt o'r farn bod y modd rydym yn casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu manylion cyflawn ynglŷn a phob agwedd ar y modd rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylid anfon unrhyw geisiadau i'r perwyl hwnnw i'r cyfeiriad isod:

Swyddog Diogelu Data

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

Sir Benfro

SA72 6DY

E-bost: DPO@pembrokeshirecoast.org.uk

Ffôn: 01646 624800

Os ydych eisiau gwneud cwyn ynglŷn â'r ffordd rydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio'r gyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

2il Lawr, Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

E-bost: wales@ico.org.uk

Rhif ffôn: 0330 414 6421

**Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.